# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

**Y Cynghorydd Alan Wathan** **Ward: Coety Uchaf**

**Plaid: Annibynwyr Sir Pen-y-bont ar Ogwr**

Mae’r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar **30 Ebrill 2023.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Coety Uchaf ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau o fewn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor:

Panel Apeliadau
Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Pwyllgor Craffu 2
Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet
Pwyllgor Rhianta Corfforaethol

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi nifer o ymholiadau etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â materion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a fy ward yn cael ei chynnal.

Rwyf wedi ymweld ac wedi siarad â sefydliadau lleol i gyflwyno fy hun ac i ddarganfod eu rolau a’u cyfrifoldebau ac i sicrhau bod gennym berthynas waith wrth symud ymlaen.

Gyda chynghorwyr ward eraill rwyf wedi cynorthwyo i gefnogi trigolion Coety Uchaf ar nifer o faterion a chodwyd y rhain yn ffurfiol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a sefydliadau eraill megis V2C.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** drwy ddefnyddio’r ddolen hon:
Cynghorydd Alan Wathan

**Gweithgarwch yn yr Etholaeth**

Rwyf wedi cyflwyno atgyfeiriadau i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar ran trigolion yn mynd i'r afael â'u pryderon am faterion yn y wardiau, a thrwy hynny dynnu sylw at y materion hyn a'u galluogi i gael eu hunioni gyda chynghorwyr ward eraill.

Rwyf hefyd yn mynychu cyfarfodydd gyda Persimmon ym Mharc Derwen, mae gennym daenlen waith o faterion a godwyd gan drigolion yr ydym yn gweithio drwyddynt gyda'n gilydd yn fisol.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) lleol i fynd i'r afael â phryderon a godwyd gan drigolion. Rwyf hefyd yn derbyn e-byst, galwadau ffôn a lle bo angen yn cael cyfarfodydd wyneb yn wyneb â thrigolion lleol i drafod unrhyw faterion sydd ganddynt.

Gyda chynghorwyr ward eraill rydym wedi bod yn gweithio i osod llwybr troed ar Heol Spencer a hefyd i ostwng y terfyn cyflymder dros y comin.

Rwyf hefyd yn gynghorydd cymuned ar Gyngor Cymuned Coety Uchaf ac am y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn Gadeirydd y cyngor ac rydym wedi bod yn ymchwilio i'r posibilrwydd o drosglwyddo asedau mewn perthynas â chanolfan gymunedol Coety Uchaf, caeau chwarae Litchard a chaeau chwarae Great Western Avenue. Cynnal cyfarfodydd gyda swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a sefydliadau eraill i alluogi'r prosiect hwn i fynd yn ei flaen.

Rwyf hefyd wedi bod yn ymwneud â mudiad Y Cerddwyr a chynghorwyr eraill yn plannu 400 o goed yng Nghoety a blodau gwyllt.

Yn fy rôl fel Cadeirydd y cyngor cymuned cyflwynais hadau blodau gwyllt a ffobiau allweddi i blant yn Ysgol Gynradd Coety ac Ysgol Gynradd Litchard i ddathlu coroni'r Brenin a hefyd mynychais ddigwyddiadau eraill yn ystod y flwyddyn ar ran y cyngor cymuned.

**<u>Gweithgareddau/Materion Eraill</u>**

Rwyf hefyd yn Gynghorydd Cymuned ar Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi bod yn rhan o lawer o ddigwyddiadau a gynhaliwyd gan y Cyngor Tref ac yn bresennol ynddynt megis Sul y Cofio a hefyd sefydlu neuadd y dref newydd yn Sunnyside.

Ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, rwy'n aelod o Grŵp Llywio a Fforwm y Lluoedd Arfog sy'n gofalu am fuddiannau cyn-filwyr y Lluoedd Arfog sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Y Cynghorydd Alan Wathan:** **Dyddiad: 30 Mehefin 2023**